

Hawdd ei Ddeall



Adroddiad ar ddyfodol gwasanaethau dydd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Mencap Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Dyfodol Gwasanaethau Dydd'.

Gorffennaf 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Mencap Cymru. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

E-bost: helpline.wales@mencap.org.uk

Ffôn: 0808 8000 300

Cyfryngau Cymdeithasol: @mencapcymru on Facebook, Twitter, Instagram, Threads



Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. **I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.**

Photosymbols Licence number 403527247.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth sy'n digwydd i'n gwasanaethau dydd.....	6
Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod	10
Cyd-gynhyrchu	10
Mathau o wasanaethau ar-lein.....	14
Ffyrdd o weithio ar sail asedau cymunedol	17
Argymhellion i Lywodraeth Cymru.....	20
Geiriau Anodd.....	22

Cyflwyniad



Cyn COVID-19, roedd gwasanaethau dydd yn helpu pobl ag anabledd dysgu i gadw mewn cysylltiad gyda:

- cyfeillion
- lleoedd
- a gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae COVID-19 wedi gwneud i lawer o wasanaethau gau.



Roedd gwasanaethau dydd yn cynnig llai o gefnogaeth. Roedd y rhan fwyaf yn cynnig help i bobl ag anghenion cymhleth yn unig.



Pan wnaethon nhw ailagor roedd gwasanaethau yn gwneud pethau'n wahanol.



Mae rhai gwasanaethau ar gau.



Mae rhai gwasanaethau yn parhau i gynnig llai o gefnogaeth.



Mae pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd wedi bod yn ei chael hi'n anodd cael yr help maen nhw ei angen.



Mae llawer o bobl wedi cysylltu gyda Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru am gyngor i gael y gwasanaethau roedden nhw eu hangen.



Ym mis Chwefror 2023 fe wnaethom ni yn **Mencap Cymru** gyda'r **Consortiwm Anabledd Dysgu** wneud arolwg.

Roedd i ddarganfod beth mae pobl ag anabledd dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr yn ei feddwl am wasanaethau dydd a beth oedd wedi newid.

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl

1. Ydych chi'n hoffi'r syniad?

☐ Ydw

☒ Nac ydw

☐ Odim yn siwr

Yn y ddogfen yma rydyn ni yn dweud wrthy ch chi beth rydyn ni wedi ei ddysgu drwy'r arolwg a chynhadledd genedlaethol.

Beth sy'n digwydd i'n gwasanaethau dydd




Fe wnaeth arolwg gwasanaethau dydd y **Consortiwm Anabledd Dysgu** dderbyn ymatebion gan 293 o bobl.



Pobl ag anabledd dysgu neu eu rhieni neu ofalwyr wnaeth ateb yr arolwg.

Roedd y bobl wnaeth lenwi'r arolwg yn dweud:




Roedden nhw'n cael llai na hanner oriau o wasanaeth dydd bob wythnos o'i gymharu â chyn COVID-19.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod yn cael llai o gefnogaeth. Mae hyn yn effeithio ar eu **llesiant**.

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.



Fe wnaeth mwy na hanner y teuluoedd a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau dydd ddweud nad oedden nhw'n cael dweud beth roedden nhw'n feddwl am y llai o oriau a gwneud pethau'n wahanol.



Fe wnaeth rhai awdurdodau lleol greu system **goleuadau traffig** i helpu i weld pwy oedd angen cymorth fwyaf.



Fe wnaethon nhw roi mwy o gefnogaeth i bobl sy'n byw gyda gofalwyr di-dâl na'r rhai sydd yn byw â chymorth.



Mewn awdurdodau lleol eraill, roedd mwy o gymorth yn cael ei roi i bobl sydd yn byw â chymorth na'r rhai sy'n byw gyda gofalwyr di-dâl.



Roedd rhieni a gofalwyr a phobl ag anabledd dysgu yn dweud nad oedden nhw'n rhan o unrhyw benderfyniadau oedd yn cael eu gwneud.



Roedd pobl yn teimlo bod cefnogaeth gwasanaethau dydd wedi ei dorri mewn rhai ardaloedd er mwyn arbed arian.



Roedd llawer o deuluoedd yn dweud nad ydy'r gefnogaeth yn y gymuned sydd ganddyn nhw drwy **daliadau uniongyrchol** neu gan awdurdodau lleol yn helpu pobl i wneud ffrindiau nac i gadw mewn cysylltiad.



Fe wnaethon ni gael cynhadledd i siarad am y materion yma ar 20 Mawrth 2023 yng Nghaerdydd ar gyfer pobl ar draws Cymru.




Fe wnaeth dros 100 o bobl gymryd rhan yn y gynhadledd.

Roedden nhw yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, rhieni a gofalwyr, comisiynwyr, rheolwyr gwasanaethau a staff cymorth.



Roedd y bobl wnaeth siarad yn y gynhadledd yn edrych ar wahanol ffyrdd o roi cefnogaeth.



Fe wnaethon ni ofyn beth roedden nhw'n feddwl, profiadau neu gwestiynau i bobl am y cyflwyniadau yn y gynhadledd.



Roedd y cyflwyniadau yma yn canolbwyntio ar

- **gyd-gynhyrchu**
- **cymorth ar-lein a**
- **ffyrdd o weithio ar sail asedau cymunedol.**

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Cyd-gynhyrchu



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.



Fe wnaeth pobl sy'n gweithio ar brosiect **MeTime** Mencap Cymru yn Rhondda Cynon Taf siarad am eu gwaith yn rhedeg gwasanaeth dydd wedi'i gyd-gynhyrchu.



Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.

Beth roedd pobl wedi ei ddweud



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl gwaith tîm. Mae'n meddwl bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd.



Mae pobl yn dod at ei gilydd gyda phrofiadau gwahanol i rannu syniadau a pŵer.



Mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn gallu gwneud pobl yn fwy annibynnol, rhoi mwy o gyfleoedd i bobl wneud pethau ac i deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain.



Mae'n helpu pobl ag anabledd dysgu i gael llais, dewis a rheolaeth dros bethau i'w gwneud.



Mae pobl yn teimlo eu bod nhw yn cael eu gwerthfawrogi wrth iddyn nhw wneud y penderfyniadau.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn annog awdurdodau lleol i fod yn fwy agored a gonest.

Problemau am gyd-gynhyrchu



Doedd dim llawer o bobl yn gwybod beth mae **cyd-gynhyrchu** yn feddwl.



Roedd rhai pobl yn dweud fod y gair **cyd-gynhyrchu** yn cael ei ddefnyddio llawer a'i fod yn anodd ei ddeall.



Mae llawer o bobl yn credu bod **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd a dydy e ddim yn cynnwys unigolion.



Mae angen i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol gefnogi pobl i fod yn fwy annibynnol a gwneud penderfyniadau.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn cymryd amser. Mae'n araf.



Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau.



Mae **cyd-gynhyrchu** angen staff medrus a llawer o amser.



Roedd pobl yn cytuno bod angen i arweinwyr a rheolwyr weithio gyda'i gilydd i wneud iddo ddigwydd.



Fe wnaeth pobl ofyn oedd ffordd o weld os oedd **cyd-gynhyrchu** yn gweithio.



Fe wnaeth pobl ddweud y dylai gwasanaethau a phrosiectau fod am yr effeithiau cadarnhaol y mae'n eu cael ar bobl ac nid ar yr oriau sy'n cael eu gwario.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn gallu gwneud i bobl feddwl eu bod nhw yn gallu cyflawni pethau sydd ddim yn bosibl.



Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddeall mwy am **gyd-gynhyrchu**.

Mathau o wasanaethau ar-lein

Insight

Fe wnaeth Ymddiriedolaeth Innovate siarad gyda phawb am eu ap o'r enw **Insight**. Gan ddefnyddio Zoom fe wnaethon ni ofyn i bobl ar draws Cymru siarad am sut mae'r ap yn eu helpu.



Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.



Beth mae pobl wedi ei ddweud

Roedd gwasanaethau ar-lein yn bwysig yn ystod COVID-19. Mae'n helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau.



Ond ni ddylai fod yn lle bywyd go iawn, a chyswllt personol.



Fe ddylai pobl gael y ddau ddewis, ar-lein ac yn bersonol.



Mae gwasanaethau ar-lein yn helpu pobl i fod yn rhan o grwpiau cyfeillgarwch newydd.



Mae'n helpu pobl i gyfarfod pobl newydd mewn rhannau eraill o'r wlad, heb orfod teithio.



Roedd yn help i ddelio gydag unigrwydd yn ystod COVID-19.



Mae pobl yn gallu cysylltu ag eraill sydd â diddordeb neu hobi tebyg.



Mae **llythrennedd digidol** yn gyfle i ddysgu sgiliau a thechnoleg newydd.



Yn ystod y pandemig, fe wnaeth llawer o bobl ag anabledd dysgu gynnal eu cyfarfodydd eu hunain ar-lein.




Oned mewn rhai pentrefi, roedd cyflymder rhyngrwyd yn broblem.



Mae band eang a dyfeisiau yn gallu bod yn ddrud ac yn anodd eu dysgu os ydyn nhw yn newydd i chi.



Mae llawer o bobl yn poeni am ddiogelwch ar-lein.



Mae teuluoedd a darparwyr cymorth angen arweiniad clir a hawdd am wasanaethau ar-lein.

Ffyrdd o weithio ar sail asedau cymunedol



Mae ffyrdd o weithio **ar sail asedau cymunedol** yn meddwl cydnabod cryfderau'r gymuned a'u defnyddio. Er enghraifft, gofodau corfforol, profiad, sgiliau, adeiladau..



Fe wnaeth Mencap Mon o Ynys Môn siarad am eu profiad o ddod â thaliadau uniongyrchol pobl at ei gilydd i wneud gweithgareddau grŵp.



Fe wnaeth Joey o Mencap siarad am ei phrosiect **Fy Nghymuned** yn Ninbych-y-Pysgod. Mae'n defnyddio cryfderau pobl i wella'r ardal.



Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.

Beth mae pobl wedi ei ddweud



Does dim llawer o bobl yn gwybod beth mae ffyrdd o weithio **ar sail asedau cymunedol** yn feddwl.



Mae angen i bobl wybod y gwahaniaeth rhwng ffyrdd o weithio **ar sail asedau cymunedol** a **chyd-gynhyrchu**.



Dydy ffyrdd o weithio **ar sail asedau cymunedol** ddim yn meddwl adeiladau yn unig.



Mae'n meddwl gweithio gyda'n gilydd a chydabod bod gan bob un ohonom ni sgiliau a thalentau rydyn ni'n gallu eu defnyddio.



Mae'n gallu datblygu hyder a sgiliau pobl.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu talu am y gwaith maen nhw'n ei wneud.



Mae ffyrdd o weithio **ar sail asedau cymunedau** yn gallu cael mwy o bobl anabl i gymryd rhan yn eu cymunedau.




Mae'n gallu bod yn ddefnydd da o **adnoddau** cymunedol.

Mae **adnoddau** yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni yn berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.



Mae defnyddio talentau a sgiliau pobl yn fwy **cynaliadwy** na gwasanaethau.

Mae **cynaliadwy** yn meddwl y bydd rhywbeth yn para'n hir.



Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys **asedau cymunedol lleol** mewn cynlluniau a gwaith y maen nhw yn ei wneud.

Argymhellion i Lywodraeth Cymru



Mae **argymhelliad** yn meddwl dweud pa gamau y mae angen eu cymryd i ddatrys problem.



1. Cael rheolau a chanllaw i gael ymgynghoriadau ar gyfer unrhyw newidiadau i wasanaethau. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu ddweud beth maen nhw'n feddwl am y newidiadau.



2. Cael dealltwriaeth glir o **gyd-gynhyrchu** ac **asedau cymunedol** a gosod rheolau ar eu cyfer.



3. Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a sefydliadau yn esbonio sut maen nhw wedi **cyd-gynhyrchu** newidiadau i wasanaethau dydd. Cynnwys pobl mewn unrhyw benderfyniadau neu newidiadau sydd yn cael eu gwneud o'r cychwyn cyntaf.



4. Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a sefydliadau yn edrych ar sut y mae newidiadau mewn gwasanaethau yn gallu effeithio ar gyfeillgarwch a pherthnasoedd pobl.



5. Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a sefydliadau yn edrych ar sut y mae newidiadau mewn gwasanaethau dydd yn gallu effeithio ar ofalwyr teulu.



6. Cael rheolau ar gyfer gwasanaethau dydd ar-lein. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu dewis cael gwasanaethau dydd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Darparu band eang a dyfeisiau i bobl ar incwm isel, **oedolion bregus** a'r rhai mewn ardaloedd gwledig.

Mae **oedolyn bregus** yn rhywun sydd angen cymorth i ofalu amdany'n nhw eu hunain, neu i'w cadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin.

Geiriau Anodd

Adnoddau

Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni yn berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

Argymhelliad

Mae argymhelliad yn meddwl dweud pa gamau y mae angen eu cymryd i ddatrys problem.

Ar sail asedau cymunedol

Mae ffyrdd o weithio ar sail asedau cymunedol yn meddwl cydnabod cryfderau'r gymuned a'u defnyddio. Er enghraifft, gofodau corfforol, profiad, sgiliau, adeiladau.

Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn meddwl cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.

Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl y bydd rhywbeth yn para'n hir. .

Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

Oedolyn bregus

Mae oedolyn bregus yn rhywun sydd angen cymorth i ofalu amdany'n nhw eu hunain, neu i'w cadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin.